ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #206
07 Rhagfyr 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

Datblygiadau Strategol

Galw am Fuddsoddiad yn Addysg Bellach yng Nghyllideb y Cynulliad

Wrth ddisgwyl cyhoeddiad cyllideb ddrafft y Cynulliad yfory, mae ColegauCymru wedi galw ar y Llywodraeth i sicrhau system gyllido decach ar gyfer addysg bellach.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Sgwad y DU ar gyfer WorldSkills

Mae ugain o bobl ifanc medrus iawn o Gymru wedi sicrhau lle yn Sgwad y DU gyda'r nod o gystadlu am Dîm y DU yng Nghystadleuaeth WorldSkills yn Abu Dhabi yn 2017.
Maent yn cynnwys:
* Daniel Griffin - Gosodiadau trydanol, a Kyle Saunders - trwsio Autobody, y ddau o Goleg Gwent
* Ashleigh Marie Simmons - Trin Gwallt, o Goleg y Cymoedd
* Elizabeth Forkuoh - Gwasanaeth Bwyty Proffesiynol, o Goleg Sir Gâr
Llongyfarchiadau iddynt oll.

Gwobrau Balchder Adeiladu CITB

Prentis Diwydiant 2015 y CITB yw Ronia Griffiths, myfyrwraig o Grŵp o Golegau NPTC.
Mwy>>>

Gwobrau Gweithgynhyrchu'r Dyfodol EEF: rhestr derfynol

Bu i brentis Coleg y Cymoedd gyda British Airways Maintenance Caerdydd, Aled Hughes, gyrraedd rhestr derfynol Cymru Gwobrau Gweithgynhyrchu'r Dyfodol EEF yng nghategori Prentis y Flwyddyn yn ddiweddar.
Mwy>>>

Gwobrau Lantra 2015

Enillodd Mark Young, myfyriwr coedwigaeth o gampws Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai, wobr Dysgwr Gydol Oes y Flwyddyn ym maes Iechyd a Lles Anifeiliaid, Diwydiannau Garddwriaeth ac Amgylchedd yng ngwobrau Lantra 2015 yn y Ffair Aeaf eleni.
Mwy>>>

Artist ifanc yn profi ei werth yn y byd celf

Mae cyn-fyfyriwr Coleg Sir Benfro, Theo Crutchley-Mack, yn profi fod ei werth yn y byd celf.
Deufis wedi lansio ei arddangosfa gelf solo fawr gyntaf, aeth ymlaen i ennill cystadleuaeth Artist Ifanc Gorllewin Cymru yn categori dros 20.
Mwy>>>

Cydnabyddiaeth i brosiect banc bwyd yng Ngwobrau Ymddiriedolaeth y Tywysog

Cafodd myfyrwyr celf a dylunio yng Ngholeg Sir Gâr eu hysbrydoli gymaint gan brofiad myfyriwr o galedi fel yr aethant ati i ddechrau prosiect cymunedol a enillodd safle iddynt yn rownd derfynol Gwobrau Dathlu Llwyddiant Ymddiriedolaeth y Tywysog.
Mwy>>>

Ffocws ar Chwaraeon

Llwyddiant cenedlaethol pêl-rwyd

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae tîm pêl-rwyd sy'n cynnwys myfyrwyr Coleg Gŵyr Abertawe yn dathlu llwyddiant cenedlaethol ar ôl cymryd rhan yng nghystadlaethau Pêl-rwyd yr Urdd yng Nghaerdydd yn ddiweddar.
Mwy>>>

Llwyddiant Trampolinio Ysgolion Cymru

Mae tîm trampolinio dan 19 Grŵp o Golegau NPTC wedi neidio'n yn syth i mewn i Rownd Cynderfynol Trampolinio Prydain (Zonals) ar ôl sicrhau y safle cyntaf ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn ddiweddar.
Mwy>>>

Arian yng nghystadleuaeth Rhwyfo Cenedlaethol

Llwyddodd Lorwi Bates, myfyriwr o Goleg Ceredigion, i gipio'r fedal arian ym Mhencampwriaethau Rhwyfo Dan Do Ysgolion Cymru 2015 yng Nghaerdydd yn ddiweddar.
Mwy>>>

Twrnament Rygbi Merched Cymru

Academi Chwaraeon Llandarsi Grŵp o Golegau NPTC oedd cartref treialon a thwrnamaint rygbi merched Colegau Cymru yn ddiweddar.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Myfyrwyr trin gwallt yn arddangos arddulliau a thechnegau Almaeneg

Cafodd deuddeg o fyfyrwyr trin gwallt o'r Coleg Merthyr Tudful y cyfle i gymryd rhan mewn profiad gwaith pythefnos o hyd yn Jena, yr Almaen, diolch i nawdd gan Erasmus+. Mwy>>>

Egin entrepreneuriaid ifanc yn paratoi ar gyfer her manwerthu ynghanol y brifddinas

Mae tri deg chwech o fyfyrwyr De Cymru ar fin ymgymryd â her eu bywyd wrth iddynt baratoi i gystadlu am werthiant yn ystod un o gyfnodau prysuraf manwerthu Caerdydd.
Mwy>>>

Myfyrwyr yn lansio gorsaf radio

Mae myfyrwyr Cyfryngau Creadigol Grŵp Llandrillo Menai wedi lansio gorsaf radio a fydd yn darlledu ar draws pob campws.
Mwy>>>

Ysgoloriaethau chwaraeon

Mae saith myfyriwr o Goleg Gŵyr Abertawe wedi ennill ysgoloriaethau chwaraeon ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/2016.
Mwy>>>

Clwb Busnes yn gwerthfawrogi medrau menter myfyrwyr

Mae grŵp o 20 o fyfyrwyr busnes o'r Coleg Merthyr Tudful wedi gwneud argraff dda ar aelodau o Glwb Busnes Merthyr Tudful gyda'u sgiliau wrth drefnu arwerthiant elusennol entrepreneuraidd.
Mwy>>>

Gwledd Nadoligaidd y Gweilch yn Blasus

Cafodd tua 45 o chwaraewyr a staff o'r Gweilch fwynhau cinio Nadolig am yr ail flwyddyn yn olynol ym mwyty hyfforddi Grŵp o Golegau NPTC, Blasus.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB